Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd Yr A5 (Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau A Beicwyr Dros Dro) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ar dir Cefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wrth Ffordd Osgoi'r Waun ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol amdanynt, yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2012 ac yn parhau mewn grym yn ysbeidiol tan 24 Hydref 2012 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol. Disgwylir y bydd y gwaith yn digwydd yn ystod y nos yn unig rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch ar 2 achlysur ar wahân: 17-18 Gorffennaf 2012 a 23-24 Hydref 2012.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd beicwyr a phob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ochr ogleddol Cylchfan Gledrid i ochr ddeheuol Cylchfan Halton.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau sy'n mynd tua'r gogledd fydd dilyn y B5070 tua'r gogledd wrth Gylchfan Gledrid a mynd i gyfeiriad ei chyffordd â'r A5 ac yna dilyn yr A5 tua'r dwyrain er mwyn ymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Halton. Y llwybr amgen ar gyfer traffig sy'n mynd tua'r de fydd i'r gwrthwyneb. Bydd y cyfyngiad pwysau ar y bont ar y B5070 wrth y Waun yn cael ei atal dros dro tra bo'r gwaith hwn yn cael ei wneud.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A5 Trunk Road (Chirk Bypass, Wrexham County Borough) (Temporary Prohibition Of Vehicles & Cyclists) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to undertake grounds maintenance works on the London – Holyhead Trunk Road (A5) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Chirk Bypass in the County Borough of Wrexham.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force on 17 July 2012 and remain intermittently until 24 October 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to take place at night time between 19:00 hours and 06:00 and on 2 separate occasions: 17-18 July 2012 and 23-24 October 2012.

The effect of the Order is to prohibit cyclists and all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding in the length of the trunk road that extends from the northern side of Gledrid Roundabout to the southern side of Halton Roundabout.

The alternative route for northbound traffic will be to take the northbound B5070 at Gledrid Roundabout and proceed to its junction with the A5 then follow the A5 eastbound to join the trunk road at Halton Roundabout. The alternative route for southbound traffic will be vice versa. The weight restriction on the bridge on the B5070 at Chirk will be suspended whilst these works are undertaken.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE